



# Amser Maith Maith yn Ôl



## Y DYNIAETHAU

- Cymharu bywyd bob dydd yn Oes y Tuduriaid â bywyd bob dydd heddiw yn gyffredinol.
- Cymharu bywyd bob dydd pobl gyfoethog â bywyd y werin yn Oes y Tuduriaid, e.e. bywyd Meistres Bowen a Meistr Siôn â bywyd Elen a Mrs Ifans.
- Gwaith y masnachwr – teithio o gwmpas y byd i gasglu ei nwyddau; teithio o gwmpas y wlad yn gwerthu ei nwyddau i bobl gyfoethog. 
- Cymharu pethau tebyg a gwahanol rhwng siopa dillad ddoe a heddiw, e.e. masnachwr yn gwerthu deunyddiau, sbeisiau, plu yn Oes y Tuduriaid; heddiw – siopau gwahanol yn gwerthu dillad, sbeis. 
- Cymharu teithio ddoe a heddiw, e.e. masnachwr yn cludo cart o le i le; heddiw – ceir, faniau, lorïau.

## LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Ffeil o ffeithiau – masnachwr Tuduraidd.
- Rhestr – ysgrifennu rhestr o'r nwyddau yr oedd y masnachwr yn eu gwerthu.
- Rhestr – ysgrifennu rhestr o'r triciau a wnaeth Mari yng nghartref y Bowenaiid.
- Dyddiadur diwrnod Mari/ Elen/ Siôn, e.e. codais...gwelais... cuddiais... dychrynais...
- Sgript syml ar gyfer actio digwyddiad o'r rhaglen, e.e. 'Helô! Oes 'na bobl?', 'Helô, pwy dach chi?'; 'Plîs, plîs, Dad, ga i ddod?' 'Sbeis neis neis'.

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Drama – chwarae rôl – Mari'n gofyn i'w thad a gaiff hi fynd gydag ef i gartref y Bowenaiid; Mari yn dychryn Elen a Siôn wrth wisgo'r defnydd coch fel bwgan; Siôn yn crafu ei groen ac yn tisian; esgidiau Meistres Bowen rhy fach. 
- Cerddoriaeth – creu cerddoriaeth i gyd-fynd â'r ddrama, e.e. Mari yn chwarae triciau, y drws yn gwichian. 

Cyfes 2  
Rhaglen  
1

## Oes y Tuduriaid Bwgan Coch

## MATHEMATEG A RHIFEDD

- Amser – datrys problemau syml ar yr amser mae'n ei gymryd i ddsbarthu nwyddau heddiw, e.e. gyrrwr sy'n dosbarthu bwyd o archfarnad yn teithio heddiw o un tŷ i'r llall.
- Mesur – mesur hyd a lled gwrthrychau yn y dosbarth.
- Mesur – pwyso gwrthrychau yn y dosbarth.

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Y synhwyrâu – arogl sbeisiau; teimlo'r deunyddiau gwahanol, e.e. plu
- Dysgu o ble daw deunyddiau gwahanol, e.e. pren, plu.
- Arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau, e.e. pa ddeunydd ydy'r gorau am gludo pwysau? (e.e. cart y masnachwr yn cario llawer o bwysau).
- Arbrofi gyda grymoedd – symud a gwthio (e.e. gwthio cart y masnachwr).

## IECHYD A LLES

- Ydych chi'n hoffi chwarae triciau? Pam?
- Sut rydych chi'n teimlo pan mae rhywun wedi chwarae tric arnoch chi? Pam?
- Chwarae gemau gwthio a thynnu.
- A oedd hi'n deg bod merched ddim yn cael bod yn fasnachwyr yn Oes y Tuduriaid? Pam?



Rhestr ddwyieithog o gwestiynau allweddol, geirfa, termau allweddol.

Allwch chi ddod o hyd i...?

*Can you find...?*

Beth sy'n digwydd?

*What's happening?*

Beth allwch chi ei ddweud am...?

*What can you say about...?*

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am...?

*What did you find out about...?*

Beth arall hoffech chi ei wybod am...?

*What else would you like to find out about ...?*

Tuduriaid

*Tudors*

gwerthu

*selling*

masnachwr

*merchant*

prynu

*buying*

defnydd

*material*

bwgan

*ghost*

plu

*feathers*

chwarae triciau

*playing tricks*

sbeisiau

*spices*

crafu a chosi

*itching*

